

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Ffordd Osgoi'r Trallwng, y
Trallwng, Powys) (Gwahardd
Cerbydau Dros Dro) 2018

The A483 Trunk Road (Welshpool
Bypass, Welshpool, Powys)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2018

Gwnaed 17 Medi 2018

Made 17 September 2018

Yn dod i rym 22 Medi 2018

Coming into force 22 September 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Osgoi'r Trallwng, y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 22 Medi 2018.

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Welshpool Bypass, Welshpool, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 22 September 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services and in connection with the works giving rise to this Order;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 23:00 o'r gloch ar 22 Medi 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A483 Swansea to Manchester Trunk Road;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd o'r enw Ffordd Osgoi'r Trallwng, y Trallwng, Powys sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan The Old Station hyd at gyffordd Flash.

Cymhwys

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

17 Medi 2018

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means that period commencing at 23:00 hours on 22 September 2018 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road known as Welshpool Bypass, Welshpool, Powys that extends from its junction with the northern side of The Old Station Roundabout to The Flash junction.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

17 September 2018

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483
(FFORDD OSGOI'R TRALLWNG, Y
TRALLWNG, POWYS) (GWAHARDD
CERBYDAU DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, yn y Trallwng, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r A483 Ffordd Osgoi'r Trallwng sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan The Old Station hyd at gyffordd Flash.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd tua'r gogledd-orllewin ar hyd Mill Lane, tua'r gogledd-ddwyrain ar hyd yr A458 Church Street a'r A458 Salop Road ac ailymuno â'r A483 wrth gyffordd Flash: y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de fydd mynd tua'r de-orllewin ar hyd yr A458 Salop Road a thua'r de-ddwyrain ar hyd Mill Lane i ailymuno â'r A483 wrth gylchfan The Old Station.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym am 23:00 o'r gloch ar 22 Medi ac yn weithredol tan 04:00 o'r gloch ar 23 Medi 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymnion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A483 TRUNK ROAD (WELSHPOOL
BYPASS, WELSHPOOL, POWYS)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)
ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is required to undertake works on or near the A483 trunk road at Welshpool, Powys.

The effect of the Order is to prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the A483 Welshpool Bypass that extends from its junction with the northern side of The Old Station Roundabout to The Flash junction.

The alternative route for northbound vehicles will be via the north-westbound Mill Lane, north-eastbound A458 Church Street and A458 Salop Road to rejoin the A483 at The Flash junction: for southbound vehicles it will be via the south-westbound A458 Salop Road and south-eastbound Mill Lane to rejoin the A483 at The Old Station roundabout.

It is expected that the prohibition will come into force at 23:00 hours on 22 September and operate until 04:00 hours on 23 September 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government